# SL(6)635 – Rheoliadau Diwygio Isddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau, ochr yn ochr â Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025, yn diwygio is-ddeddfwriaeth bresennol i gywiro gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor. Mae'r offerynnau hyn wedi'u gwneud yn unol ag ymrwymiadau a roddwyd i'r Pwyllgor gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud cywiriadau i'r rheoliadau a ganlyn:

- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 [O.S 2003/3227 (Cy. 308)];
- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003 [O.S 2003/3246 (Cy. 321)];
- Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2007 [O.S 2007/2611 (Cy. 222)];
- Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 [O.S 2011/656 (Cy. 94)];
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 [O.S 2015/1844 (Cy. 272)];
- Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 [O.S 2021/77 (Cy. 20)];
- Rheoliadau’r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023 [O.S 2023/1303 (Cy. 233)];
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024 [O.S 2024/28 (Cy. 11)];
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024 [O.S 2024/135 (Cy. 29)]; a
- Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025 [O.S 2025/88 (Cy. 22)].

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Rhan 4, yn rheoliad 4, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â phwyntiau adrodd 4 a 5 o adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad yw'n bwriadu gwneud y cywiriadau hyn yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor.

O ganlyniad, fodd bynnag, nid yw'r addasiadau a wnaed i adran 37 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 gan yr Atodlen i Reoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007 yn gwbl lwyddiannus oherwydd y cyfeiriadau sy'n weddill at "is-adran (1)(c)" ac at y "siryf" yn adran 37(2) a (4) yn y drefn honno o'r Ddeddf honno.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Rhan 10, yn rheoliad 12(a), gwneir gwelliannau i baragraff 4(5) o Atodlen 2 i Reoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024, mewn ymateb i bwynt adrodd 6 o adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau hynny. Mae hyn yn golygu y bydd gan y termau "Ymddiriedolaeth y GIG" ac "Awdurdod Iechyd Arbennig" ym mharagraff 4(5)(b) a (c) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny yr un ystyr ag a geir yn y diffiniad newydd o "corff gwasanaeth iechyd". Felly, byddant yn cynnwys Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn ogystal â'r rhai a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Fodd bynnag, ym mharagraff 6(b) a (c) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny bydd ystyr "Ymddiriedolaeth y GIG" ac "Awdurdod Iechyd Arbennig" yn gyfyngedig i'r rhai a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

A oes modd i Lywodraeth Cymru gadarnhau bod hyn yn fwriadol, a bod bwriad i "Ymddiriedolaeth y GIG" ac "Awdurdod Iechyd Arbennig" fod ag ystyr ehangach sy'n golygu cynnwys y rhai a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 ym mharagraff 4(5) o Atodlen 2 i Reoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024?

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nid yw teitl yr offeryn statudol yn rhoi syniad o natur na chynnwys yr offerynnau statudol yng Nghymru sy'n cael eu cywiro. Gallai hyn godi problemau hygyrchedd wrth dynnu sylw darllenwyr at unrhyw offerynnau statudol yng Nghymru sy'n cael eu cywiro, ac sydd o ddiddordeb arbennig iddynt. Gallai hyn fod yn anochel os yw'r offerynnau statudol i gyd yn gyffredinol heb gysylltiad wrth ddilyn dull omnibws o gywiro offerynnau statudol.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae nifer o'r cywiriadau a wnaed gan y Rheoliadau yn ymwneud ag offerynnau statudol yng Nghymru yr adroddwyd arnynt gan y Pwyllgor ar ddiwedd 2023 ac ar ddechrau 2024. Felly, mae'r gwallau hyn wedi bod yn bresennol yn nhestun y ddeddfwriaeth ers cyfnod eithaf hir (e.e. rheoliadau 7, 8 a 9).

Dylai Llywodraeth Cymru egluro fel a ganlyn:

i) Pam y bu cymaint o oedi cyn gwneud y cywiriadau hyn; ac
ii) Os bwriad Llywodraeth Cymru yw gwneud cywiriadau drwy offeryn statudol omnibws yn rheolaidd, pa mor aml y gwneir offeryn o'r fath, a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw gwallau'n aros ar y llyfr statud am ormod o amser.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

O ran y rhaglith, er bod rhai manteision i rannu'r pwerau galluogi yn baragraffau ar wahân, mae yna rai anfanteision hefyd, yn enwedig y rhaglith hir sy'n deillio o hyn sy'n cynnwys rhywfaint o ailadrodd (e.e. dyfynnir adran 16(1)(f) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 mewn dau baragraff ar wahân, ac ailadroddir y cyfeiriadau at gyngor gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r ymgynghoriad o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 hefyd). Dewis arall posibl fyddai rhoi'r pwerau galluogi mewn atodlen, fodd bynnag, ni fyddai hyn o reidrwydd yn gwella hygyrchedd. Felly, efallai mai rhagair hir ac ailadroddus yw canlyniad anochel offeryn statudol "omnibws".

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.